Syniadau i helpu ysgolion cynradd i ddathlu'r Flwyddyn Darllen!

Gweithgaredd i'r ysgol gyfan

- Gwahodd y plant i wisgo fel cymeriadau o lyfr – gellid ehangu ar y syniad hwn trwy gael pob plentyn i chwarae rôl ei gymeriad, neu trwy greu drama fer ynglŷn â'r cymeriadau. Gellid hefyd greu cornel bwrpasol fel cefndir i'r chwarae rôl neu'r ddrama.
- Gollwng cannoedd o falŵns o faes chwarae'r ysgol, gydag enw llyfr ynghlwm wrth rai ohonynt. Os daw rhywun o hyd i'r balŵns hynny, bydd yr ysgol yn cyflwyno copi o'r llyfr yn wobr iddynt. Gallai hyn fod yn weithgaredd ar y cyd gyda'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon, o bosib.
- Aelodau o staff i ddarllen darnau cyffrous o lyfrau i gyd-fynd â'r thema mewn gwasanaeth boreol.
- Trwco/ffeirio llyfrau – mae cyfnewid llyfrau'n hwyl!
- Aros a Darllen – beth am glustnodi cyfnod penodol pan fydd pawb yn yr ysgol, yn staff a disgyblion, yn darllen ar yr un pryd?
- Darllen di-dor – beth am geisio creu record newydd?
- Ffair lyfrau.
- Ymweliad gan awdur/arlunydd llyfrau plant.
- Cwis llyfrau i unigolion neu dimau.
- *Sleepover* darllen – mae'n siŵr y byddai eich disgyblion (ac athrawon) wrth eu bodd yn cael aros dros nos yn yr ysgol i ddarllen!
- Trefnu cystadleuaeth ysgrifennu stori.
- Cynnal sesiynau awr ginio i drafod llyfrau. Mae argymhellion gan gyfoedion yn bethau pwerus iawn!
- Cystadleuaeth creu posteri i hysbysebu llyfrau; cynnig llyfr yn wobr i'r ymgais orau ym mhob blwyddyn ysgol.
- Agor y Drws i Ddarllen – addurno drws pob stafell ddosbarth fel clawr llyfr; y dosbarthiadau yn eu tro i fynd ar 'daith lyfrau' i weld y drysau; gwobr i'r drws gorau.
- Hoff lyfrau'ch ymwelwyr – pan fydd ymwelwyr â'ch ysgol yn cofrestru wrth y drws ffrynt, gofynnwch iddynt nodi yn y llyfr ymwelwyr eu hoff lyfr pan oeddent yn blant.
- *Oscars* eich ysgol – gyda help y plant, penderfynwch ar gategorïau, e.e. llyfr doniolaf, tristaf, yr un sy'n peri'r ofn mwyaf, a chasglwch eu henwebiadau ar gyfer pob categori. Wedi'r pleidleisio, trefnwch ddigwyddiad i gyhoeddi enwau'r llyfrau buddugol a darllen darnau ohonynt.
- Tynnu lluniau o aelodau o staff neu ddisgyblion yn darllen, a'u harddangos mewn lleoliadau anarferol o gwmpas yr ysgol.
- Cystadleuaeth 'Pwy Sy'n Darllen Pa Lyfr?' Rhestr o enwau 10 person – gallant fod yn aelodau o staff yr ysgol, unigolion o'r gymuned neu'n ddisgyblion – a rhestr o 10 teitl llyfr. Y gamp fydd cyplysu'r person cywir gyda'r llyfr y mae'n ei ddarllen ar hyn o bryd. Beth am gynnig llyfr yn wobr i'r enillydd?

Gweithgaredd yn y dosbarth

- Mae 'Dyfalu'r Cymeriad' yn gêm fach rwydd i'w chwarae gyda dosbarth o blant – dau ohonynt i benderfynu'n ddirgel pa gymeriadau o lyfrau ydyn nhw a'r lleill i geisio dyfalu pwy ydyn nhw trwy ofyn cwestiynau iddynt. Dim ond 'ie' neu 'na' all yr atebion fod!
- Creu *collage* yn seiliedig ar lyfr.
- Gweithgaredd creadigol – paentio neu greu model – yn seiliedig ar stori neu gymeriadau o lyfr.
- Sesiwn stori – beth am i'r athrawon gyfnewid dosbarthiadau?
- Sillafu neu ddarllen noddedig.
- Torri record – gwahodd y plant i chwilio am y llyfrau hynaf, mwyaf trwchus, trymaf, lletaf, dyfnaf, talaf, y rhai â'r arwynebedd mwyaf a.y.b. – yn yr ysgol a gartref. Gall hyn glymu â gweithgaredd rhifedd.
- Dylunio cloriau neu nodau llyfrau.
- Creu stori gadwyn o fewn dosbarth neu o fewn yr ysgol – gallai pob dosbarth gyfrannu yn ei dro, efallai.
- Helfa lyfrau.
- Hoff lyfr/cas lyfr – cyflwyniadau llafar unigol, trafodaeth grŵp a.y.b..
- Coeden lyfrau i'w rhoi ar y wal – gallai'r 'dail' gynnwys un o'r canlynol: teitlau ac enwau awduron, broliant byr, adolygiad byr, marciau allan o ddeg i lyfrau arbennig.

- Y dosbarthiadau hŷn i greu llyfrau ar gyfer y dosbarthiadau iau. Dyma gyfle i feithrin sgiliau technoleg gwybodaeth, efallai.
- Creu proffiliau awdur – y disgybl i ddewis awdur a chreu ei broffil ei hun trwy chwilio am wybodaeth mewn erthyglau a llyfrau a.y.b., a defnyddio broliannau llyfrau. Gallai hyn fod yn sail i arddangosfa neu lyfr dosbarth ar hoff awduron.
- *Charades* – meimio neu actio teitl llyfr neu gymeriad o lyfr; y plant i ddyfalu'r atebion, naill ai fel dau dîm mewn cystadleuaeth neu am y cyntaf fel unigolion.
- *Pictionary* – tebyg i *charades* ond gosod y cliwiau trwy dynnu lluniau.
- Gêm yr wyddor – am y cyntaf i feddwl am deitlau llyfrau sy'n dechrau gyda phob un o lythrennau'r wyddor yn eu tro.
- Cadeiriau cerddorol – yr athro/athrawes i ddarllen o lyfr neu ddweud stori, gyda'r plant yn eistedd pan fydd yn peidio â darllen.
- Jig-sos cymeriadau – y plant i dynnu llun eu hoff gymeriad o lyfr ar gerdyn, ei liwio a'i dorri'n ddarnau. Cyfnewid darnau â phlentyn arall, sy'n gorfod rhoi'r darnau at ei gilydd a dyfalu pwy yw'r cymeriad.
- Yr athro/athrawes i ddarllen disgrifiad o olygfa, sefyllfa neu gymeriad o lyfr, a gofyn i'r plant dynnu llun wrth iddo/iddi ddarllen.
- Yr athro/athrawes i ddarllen dechrau stori fer, gofyn i'r plant ddychmygu sut y byddai'r stori'n parhau ac yna ysgrifennu eu diweddglo eu hunain.
- Codi pebyll yn y stafell ddosbarth a chael y plant i ddod â sachau cysgu i'r ysgol; cyfle i gael sesiwn ddarllen yng ngolau tortsh!
- Parti pyjamas – beth am gael sesiwn ddarllen â'r plant yn gwisgo'u dillad nos a'u sliperi? Byddai parti glan-môr yn amrywiad difyr o hyn!
- Darllen-rownd-y-byd – am bob tudalen a ddarllenir, bydd y plant yn casglu milltiroedd ar gyfer eu taith o gwmpas y byd; gellid gosod map o'r byd ar y wal a dangos y milltiroedd sydd wedi eu casglu wrth i'r plant ddarllen dros gyfnod.
- Bingo llyfrau – gellid defnyddio enwau awduron neu deitlau llyfrau, a chwarae'r gêm naill ai o fewn dosbarth neu rhwng dosbarthiadau.
- Twba lwcus – rhoi enwau oddeutu 30 o awduron mewn bocs. Pob plentyn i dynnu enw allan o'r bocs, dewis a darllen llyfr gan yr awdur hwnnw, ac ysgrifennu adolygiad byr. Yr adolygiadau i'w harddangos ynghyd â phroffiliau a lluniau o'r awduron a siacedi'r llyfrau.
- Deg ucha'r dosbarth – 10 awdur, 10 teitl, 10 cymeriad o lyfr a.y.b. Arddangos y canlyniadau ar y waliau gyda chymorth lluniau cloriau ac awduron.

Gweithgaredd sy'n cynnwys rhieni neu asiantaethau allanol

- Trefnu i rieni ymweld â'r ysgol i helpu'r plant gyda'u darllen.
- Gwahodd storïwr neu lyfrgellydd i mewn i adrodd stori wrth y plant.
- Os gwyddoch am gwmni pypedau sy'n medru cyflwyno sioe yn seiliedig ar lyfr neu gymeriadau o lyfr, a fyddai'n bosib eu gwahodd i'r ysgol? Efallai y gellid gwahodd ysgolion eraill i'r achlysur.
- Annog eich rhieni i ddod ynghyd a mynd ati i greu sachau stori ar gyfer eich dosbarth meithrin neu ddosbarth derbyn.
- Gwahodd arbenigwr o'r byd addysg, neu lyfrgellydd, i gynnal sesiwn gyda'r rhieni ar sut i ddenu plant i fwynhau llyfrau, ac yn nes ymlaen eu darllen, ynghyd ag egluro rôl rhieni yn y broses honno.
- Trefnu parti llyfrau i deuluoedd cyfan – ar ôl oriau ysgol – a fyddai'n cynnwys gweithgareddau'n seiliedig ar lyfrau, tebyg i sesiwn stori mam-gu/nain, cwis llyfrau, helfa lyfrau o gwmpas yr ysgol, twba lwcus o lyfrau o bob math wedi eu lapio mewn papur lliwgar, deg ucha'r tadau a.y.b. Gellid addasu'r syniad yma i greu barbeciw llyfrau.
- Trefnu bore coffi i godi arian ar gyfer yr ysgol a gwahodd eich siop lyfrau leol i ddarparu stondin lyfrau.
- Trefnu i seren leol o fyd chwaraeon, pop, teledu, ffilm a.y.b. ymweld â'ch ysgol – cyfle i gynyddu *street cred* llyfrau a darllen.
- Cynnal/trefnu gweithdy drama.
- Mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth llyfrgell, sicrhau bod pob un o'ch disgyblion yn aelodau o'r llyfrgell leol/trefnu ymweliad â'ch llyfrgell leol.
- Gwahodd gwasg leol i'r ysgol i egluro sut mae llyfrau'n cael eu cynhyrchu/trefnu ymweliad â gwasg leol.

- Cystadleuaeth ‘Pa Lyfr?’ Dewiswch 10 llyfr adnabyddus. Y gamp fydd cysylltu'r teitl cywir gyda naill ai y llinell gyntaf, y llinell olaf neu ddarlun o'r llyfr. Gellid creu taflen A4 a fyddai'n cynnwys y cliwiau a'r teitlau a chael blwch postio ar gyfer yr atebion. Efallai y byddai'r gystadleuaeth yma o ddiddordeb i rieni ac aelodau o'r gymuned, yn ogystal â phlant ac athrawon.
- Yr Hen Ffefrynnau – llunio holiadur y gall plant ei ddefnyddio gydag oedolion i drafod y llyfrau y gwnaethon nhw eu mwynhau pan oeddent yn blant. Creu ‘10 ucha’ o’r rhai sy’n boblogaidd o hyd ac annog y plant i ysgrifennu adolygiadau ohonyn nhw. Gellid creu arddangosfa o’r llyfrau, yr holiaduron a’r adolygiadau.

Gweithgaredd ar gyfer y staff

- Cwis dros baned amser egwyl.
- Sesiwn darlleniadau o farddoniaeth neu ryddiaith yn ystod yr awr ginio.
- Creu stori gadwyn o deitlau llyfrau dros baned.